# Cyngor Bro Morgannwg

# Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol

# Hysbysiad Preifatrwydd

**Datganiad Preifatrwydd**

Ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ni fydd y Swyddog Asesu Ariannol a Chyngor ar Fudd-daliadau ond yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddibenion asesu eich cyfraniad tuag at dalu am ofal a chymorth yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Y Ddeddf). Byddwn yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a byddwn yn glynu wrth ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill i unrhyw un arall nac i sefydliad arall oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn unol â’r gyfraith neu os cawn ganiatâd gennych chi.

Bydd y data personol a gasglwn gennych yn cael ei gadw a'i rannu gyda sefydliadau eraill, fel y nodir isod, er mwyn i ni allu cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae angen y prosesu hwn ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth ymgymryd ag awdurdod swyddogol a roddir i ni drwy’r Ddeddf. Cyngor Bro Morgannwg yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol y gallech ei rhoi.

**Sut byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol?**

Gellir casglu gwybodaeth bersonol drwy:

- E-bost
- Ffôn
- Gwefan y Cyngor
- Wyneb yn wyneb (drwy ein gweithwyr)
- Adrannau eraill yn y Cyngor
- Ffurflenni asesu ariannol a dogfennaeth ategol (copïau papur ac electronig)

**Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu gennych?**

Rydym yn casglu’r canlynol:

- Enw
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Manylion pobl eraill sy'n byw yn eich tŷ
- Gwybodaeth ariannol -
    - Eich incwm

    - Eich gwariant
    - Eich cynilion
    - Eich cyfalaf, gan gynnwys eiddo y gallech fod yn berchen arno
- Gwybodaeth am Bŵer Atwrnai/Dirprwyaeth

Efallai y bydd angen tystiolaeth bellach o unrhyw un o'r uchod arnom, megis copïau o'ch tystysgrif priodas, cyfriflenni banc, biliau cartref, gweithredoedd eiddo, dogfennau'r Llys Gwarchod.

**Gyda phwy y gallem rannu eich gwybodaeth?**

Gall ein darparwyr meddalwedd hefyd storio eich gwybodaeth, ond dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau. Ni fyddant yn ei defnyddio at unrhyw ddiben arall, a bydd yn rhaid iddynt ei chadw a'i thrin yn yr un modd ag y byddem ni yn ei thrin.

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag adrannau eraill o fewn Cyngor Bro Morgannwg a/neu sefydliadau trydydd parti, a allai gynnwys yr Heddlu neu Asiantaethau'r Llywodraeth, lle gofynnir am y wybodaeth ar gyfer atal a chanfod troseddau. Gofynnir am y wybodaeth hon i gydymffurfio â dyletswyddau statudol y Cyngor yn unig.

Ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Cynghorir yr holl staff sy'n trin gwybodaeth o'r fath ei bod yn drosedd datgelu neu ddefnyddio unrhyw wybodaeth a gyflwynir dan delerau eu cais.

**Beth rydyn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth?**

Rydym yn ei defnyddio at ddiben asesu eich cyfraniad tuag at dalu am ofal a chymorth yn unol â'r Ddeddf. Ni fyddwn yn ei defnyddio at unrhyw ddiben arall heb eich caniatâd, neu heb ddweud wrthych yn gyntaf.

Weithiau mae'n rhaid inni ei rhoi i awdurdodau, sefydliadau neu bobl eraill. Byddai hyn ar gyfer atal a chanfod troseddau neu oherwydd materion cyfreithiol, er enghraifft. Nid oes angen eich caniatâd arnom i wneud hyn, ond rhown wybod i chi os gallwn os ydym wedi trosglwyddo eich gwybodaeth.

**Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

Byddwn yn cadw eich data am saith mlynedd ariannol. Mae hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

**Sut y gallaf gael gafael ar y wybodaeth sydd gennych amdanaf, a chael rhagor o wybodaeth am hawliau preifatrwydd, neu fynegi pryder?**

E-bostiwch y Swyddog Diogelu Data yn FoiUnit@valeofglamorgan.gov.uk

Ewch i'r wefan: www.bromorgannwg.gov.uk

Ysgrifennwch at:
Swyddfa Diogelu Data
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch. Mae'n rhaid gwneud pob cais fel hyn yn ysgrifenedig.

Os yw'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir, mae gennych hawl i'w chywiro ac mae gennych hawl i ofyn am gwblhau data anghyflawn.

Mae gennych hawl i ofyn am ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau ('hawl i gael eich anghofio').

Mae gennych hawl i ofyn i ni stopio, neu gyfyngu ar brosesu eich data personol, mewn rhai amgylchiadau. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni ddal neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â gofyniad cyfreithiol sydd arnom.

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi defnyddio eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

E-bost: casework@ico.org.uk

Yn ysgrifenedig: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Neu Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn 029 2067 8400
0303 123 1113 (cyfradd leol)
01625 545 745 (cyfradd genedlaethol)